Rhifyn 8

MisTachwedd 2008

BWYD I'R MEDDWL

Cylchlythyr Gwasanaeth Diogelwch Bwyd yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd

wrexham COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL wrecsam

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Diogelu'r Cyhoedd

Cynllun Gwobrau Dewisiadau Iach

Lansiwyd cynllun gwobrau cyffrous newydd i fusnesau bwyd yng Nghymru yn ddiweddar.

Beth mae'r wobr yn ei olygu?

Bellach mae nifer cynyddol o aelodau'r cyhoedd yn ystyried bwyta allan fel rhan o fywyd bob dydd, yn hytrach na defod achlysurol. Felly, fel arlwywr gallech wneud cyfraniad sylweddol tuag at wella diet ac iechyd eich cwsmeriaid drwy ddarparu dewisiadau bwyd iachach. Bron bob dydd tynnir sylw'r cyhoedd at wybodaeth yn y cyfryngau am ddiet, maeth ac iechyd. Mae arolygon wedi dangos bod y cyhoedd yn dod yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach, ac mae llawer o gwsmeriaid o'r farn y dylent gael y dewis o fwyta'n iach pan fyddant yn bwyta allan. Mae llawer o gynhyrchwyr a manwerthwyr bwyd sydd wedi achub ar y cyfle i gyflwyno dewisiadau iachach yn gweld cynnydd aruthrol yn y gwerthiannau hyn.

Nod y Wobr Dewisiadau Iach hon yw gwella hygyrchedd bwyd blasus, a baratowyd mewn ffordd iachus. Nod y cynllun hwn yw cynnig dewisiadau iach ar eich bwydlen i'ch cwsmer—nid oes rhaid i'ch bwydlen gyfan fod yn iach. Y peth pwysig yw rhoi dewis i'r cwsmer.

Sut y bydd yn helpu fy musnes?

Bydd lleoliadau llwyddiannus yn:

- Derbyn tystysgrif Gwobrau Dewisiadau Iach i'w harddangos yn y lleoliad;
- cael cyhoeddusrwydd am ddim yn yr Awdurdod Lleol ac unrhyw gyhoeddiadau a gwefannau perthnasol
- Bod â'r hawl i ddefnyddio logo'r Wobr Dewisiadau Iach ar eu deunydd swyddfa/bwydlenni/ byddau
- Ceisio cynnal a chynyddu cyfleoedd busnes wrth i nifer cynyddol o bobl ddewis fwyta allan
- Gwella eu henw da drwy gynnal arferion hylendid da a chynnig dewisiadau iach i'w cwsmeriaid.

Sut y gallaf gael gwobr?

Os ydych yn gymwys i wneud cais am y wobr hon byddwn yn cysylltu â chi drwy lythyr dros y 12 i 18 mis nesaf. I fod yn gymwys mae'n rhaid bod gennych wobr hylendid bwyd eisoes i lefel y wobr efydd, gan fod arferion hylendid da yn hanfodol ar gyfer bwyta'n iach. Pan fydd eich asesiad wedi'i gwblhau, bydd eich sgôr cyffredinol yn dangos p'un a ellir rhoi grant ac a yw ar lefel efydd, aur neu arian. Yna mae hyn yn ddilys am ddwy flynedd ac mae'n bosibl symud i wobrau uwch ar ôl hynny.

Yn y rhifyn hwn:

Mae'n amser golchi eich dwylo eto	2
Achosion o Salmonella Agona	2
Dyddiadau Defnyddio	2
Ymgyrch Lleihau Halen	3
Bwyd â Labeli Iaith Dramor	3
Enillwyr y wobr Hylendid Bwyd / Dyddiadau Hyfforddi Hylendid Bwyd	4

Mae'n amser golchi eich dwylo eto !!

Mae golchi eich dwylo'n drwyadl, yn bwysig iawn p'un a ydych ar fin paratoi bwyd, bwyta eich cinio neu os ydych newydd fynd i'r toiled. Mae golchi eich dwylo'n hanfodol i atal lledaenu germau a all achosi pob math o heintiau.

Felly, yr haf hwn ymwelodd aelodau o'r Tîm Diogelwch Bwyd ag ysgolion cynradd ledled y fwrdeistref i roi cyngor gwerthfawr i blant ysgol ar sut i olchi eu dwylo yn briodol mewn ffordd hwyliog.

Atgoffwyd plant pryd mae angen iddynt olchi eu dwylo a sut i wneud hyn yn effeithiol i gael gwared ar facteria o'u dwylo. Rhoddwyd "sudd germau" fflwroleuol arbennig ar eu dwylo. Rhoddodd disgyblion eu dwylo mewn blwch golau uwchfioled i weld y "germau ffug". Ar ôl golchi eu dwylo'n drwyadl, gwnaethant roi eu dwylo yn ôl yn y blwch uwchfioled unwaith eto i weld a oeddent wedi methu â golchi unrhyw rannau ar eu dwylo.

Mae disgyblion yn mwynhau'r ymagwedd ymarferol hon ac yn

Plant Ysgol Iau Penycae yn cymryd rhan yn ein harddangosiad golchi dwylo

cofio'r neges i olchi eu dwylo.

Achos o Salmonella Agona

Efallai y bydd rhai ohonoch wedi darllen erthyglau yn y papur yn ddiweddar am achos o Salmonella sydd wedi effeithio ar hyd at 110 o bobl ledled y DU ac Iwerddon yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Honnwyd yn wreiddiol bod cysylltiad â brechdanau a brynwyd o siopau brechdanau ar y stryd fawr, megis y siopau cadwyn Subway.

Y math o Salmonella a oedd dan sylw oedd Salomnella Agona ac y diwedd canfuwyd mai cynnyrch cyw iâr, cig eidion a chig moch o Dawn Farm Foods Ltd., Gogledd Iwerddon a oedd ar fai. Roedd y cigoedd hyn yn cael eu hychwanegu at ystod o lenwadau brechdanau parod a gynhyrchwyd gan y Kerry Group. Cymerwyd rhagofalon a oedd yn cynnwys symud yr holl gynnyrch perthnasol o'r farchnad a chysylltwyd â'r busnesau brechdan perthnasol yn uniongyrchol. Ni chredir i hyn effeithio ar unrhyw fusnesau yn ardal Wrecsam.

Dyma enghraifft o sut mae system Rhybudd Bwyd, a gydlynir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yn gallu tynnu cynnyrch sydd wedi'i halogi o'r farchnad i leihau'r risg i'r cyhoedd. Mae hefyd yn ffordd amserol o atgoffa arlywyr am bwysigrwydd sichrau y caiff brechdanau poeth eu coginio'n drwyadl cyn iddynt gael eu gwerthu ac i'w hatgoffa am yr angen i ddilyn gweithdrefnau llym i osgoi croeshalogi rhwng bwydydd amrwd a bwydydd sydd wedi'u coginio.

Mae rhagor o wybodaeth am yr achos hwn ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd..

Dyddiadau Defnyddio

Mae'r Gwasanaeth Safonau Masnach yn pryderu bod nifer yr achosion o fwyd sy'n cael eu dangos neu eu gwerthu ar ôl i'r dyddiadau defnyddio fynd heibio wedi cynyddu. Mae angen i fusnesau bwyd fod yn ymwybodol bod dyddiadau defnyddio yn bodoli am reswm i sicrhau nad yw bwydydd darfodus yn beryglus i iechyd y cyhoedd. Mae'n drosedd gwerthu bwyd ar ôl i'w ddyddiad defnyddio fynd heibio ac mae'r Gwasanaeth yn cynghori busnesau bwyd i wirio eu systemau a'u gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddarpariaeth hon yn llawn.

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor cysylltwch â'r Tîm Masnach ar 01978 292045.

YMGYRCH LLEIHAU HALEN

Mae Gwasanaeth Safonau Masnach Wrecsam yn gofyn i unedau cludfwyd lleol i helpu i leihau lefelau halen a gwella iechyd yn Wrecsam drwy gyflwyno cynhwysyddion halen “iachach”.

Beth yw’r broblem?

Yn genedlaethol rydym yn bwyta 8.6g o halen bob dydd ar gyfartaledd o gymharu â’r lefel ddyddiol o 6 g. a awgrymir. Mae goblygiadau difrifol i fwyta gormod o halen ac mae ffigurau yn dangos os ydym yn lleihau ein lefelau halen i’r lefel a argymhellir y gallai arwain at leihad o 24% mewn marwolaethau oherwydd strociau a lleihad o 18% mewn marwolaethau oherwydd clefyd coronaidd y galon. Byddai hyn yn atal tua 35,000 o fawrolaethau oherwydd strociau a marwolaethau yn y DU bob blwyddyn.

Sut y gallwch ein helpu ni i’ch helpu chi a’ch cwsmeriaid?

Mae gwaith ymchwil am halen a ychwanegir drwy ddefnyddio cynhwysyddion halen mawr a geir fel arfer mewn siopau cludfwyd yn dangos y gellir ychwanegu 3g neu hanner y lwfans halen a argymhellir at un pryd cludfwyd. Mae gan Safonau Masnach nifer o gynhwysyddion halen iachach newydd gyda llai o dyllau na’r rhai a geir mewn siopau cludfwyd fel arfer. Os cânt eu defnyddio yn yr un ffordd maent yn dosbarthu tua 50% yn llai o halen. Mae treialon mewn rhannau eraill o’r wlad wedi dangos nad yw’r rhan fwyaf o gwsmeriaid yn sylwi ar y gwahaniaeth ond os bydd cwsmer yn gofyn am fwy o halen, y caiff fwy o halen. Rydym yn awyddus i siopau cludfwyd dreialu’r ymagwedd newydd hon ac mae’r cynhwysyddion halen ar gael bellach am ddim drwy gysylltu â Safonau Masnach ar **01978 292045**

Beth yw’r manteision i’ch busnes?

Mae’n iachach i’ch cwsmeriaid—gall gormod o halen godi pwysedd y gwaed a gall hyn yn ei dro gynyddu’r risg o ddatblygu clefyd y galon neu o gael strôc.

Byddwch yn defnyddio llai o halen.

Bydd yn costio llai i chi.

Bydd llai o wastraff.

Drwy ddefnyddio cynhwysyddion halen newydd byddwch yn helpu i wella iechyd pobl sy’n byw ac yn gweithio yn Wrecsam yn y tymor hir. Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag Adran Fasnach y Gwasanaeth Safonau Masnach ar 01978 292045.

Bwyd â Labeli Iaith Dramor

Dros y blynyddoedd mae gwerthu bwyd a fewnforir o’r tu mewn i’r Gymuned Ewropeaidd ac y tu allan iddi wedi dod yn fwyfwy poblogaidd. Yn amlwg, mae labeli llawer o’r cynnyrch hyn mewn ieithoedd tramor. Mae’r un gofynion yn berthnasol i fwydydd â labeli gydag ieithoedd tramor yn yr un modd â bwydydd â labeli Saesneg. Ni all manwerthwyr na chyfanwerthwyr gyflenwi bwyd heb labeli Saesneg er bod y rheoliadau yn berthnasol mewn ffyrdd sydd ychydig yn wahanol.

Manwerthwyr – rhaid iddynt sicrhau bod bwydydd a roddir mewn pecynnau gan gynnwys diodydd y maent yn eu gwerthu yn dangos y wybodaeth orfodol ar bob cynhwysydd yn Saesneg fel a ganlyn:

Enw’r bwyd – dylai hwn fod hwn enw gofynnol dan y gyfraith neu enw arferol. Os nad yw’r naill na’r llall yn berthnasol rhaid i’r enw fod yn ddigonol gywir i roi gwybod i brynwr o wir natur y bwyd, a’i wahaniaethu oddi wrth gynnyrch tebyg eraill. (Noder: gellir defnyddio enw brand neu enw bachog ar yr amod nad yw’n cael ei ddefnyddio yn lle’r enw go iawn.)

Rhestr o gynhwysion, yn eu trefn yn ôl eu pwysau

Syniad o ansawdd y ganran o gynhwysion penodol a elwir hefyd yn QUID

Dyddiad Defnyddio Erbyn, Defnyddio Cyn, neu ddyddiad defnyddio cyn diwedd

Unrhyw amodau storio neu ddefnyddio arbennig

Enw a chyfeiriad y gwneuthurwr, y cwmni pacio neu’r gwerthwr a leolir yn y Gymuned Ewropeaidd

Lle y cafodd ei wneud os gallai peidio â’i gynnwys fod yn gamarweiniol

Unrhyw gyfarwyddiadau sydd eu hangen i ddefnyddio’r bwyd

Rhaid nodi cynhwysion alergerddol penodol

Mae gan rai cynnyrch ofynion labelu ychwanegol e.e.cynnyrch cig, jam, siocled.

Rhaid i gyfanwerthwyr sicrhau:

Os yw bwyd yn barod i’w gyflwyno i’r cwsmer ei fod yn cydymffurfio â’r rheoliadau (mae bwyd yn barod i gael ei gyflwyno i’r cwsmer os na chaiff y pecyn ei newid cyn iddo gael ei werthu.

Gellir rhoi’r wybodaeth orfodol uchod yn unrhyw rai o’r ffyrdd canlynol:

Ar becynnau allanol y cynnyrch NEU

Ar y pecynnau allanol yn rhannol neu’n rhannol mewn dogfen fasnachol sy’n dod gyda’r bwyd neu a afonir cyn iddo gael ei werthu. Rhaid i enw’r bwyd, syniad am faint y bydd y bwyd yn para ac enw a a chyfeiriad y gwneuthurwr neu werthwr a leolir yn y Gymuned Ewropeaidd gael ei ddangos ar y pecynnau allanol, gyda gweddill y wybodaeth ar gael mewn dogfen fasnachol

Rhaid i unrhyw fwyd pecyn a werthir mewn sefydliadau arlwyo sy’n cynnwys bwytai, ffreuturau, tafarnau, clybiau, ysgolion neu’r ceffylyb lle nad oes angen rhagor o baratoi cyn i’r cwsmer ei fwyta gael ei labelu yn unol â’r rheoliad uchod. Mae hyn yn cynnwys arlywyr symudol a faniau cludfwyd. **Mae’n drosedd gwerthu bwyd nad yw wedi’i labelu’n unol â’r rheolau hyn o dan y rheoliadau a gallai arwain at ddirwy o £5,000. Os bydd y manwerthwr yn cyflawni trosedd am nad oedd y cyfanwerthwr wedi rhoi’r wybodaeth angenrheidiol, gellir erlyn y cyfanwerthwr hefyd.**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag Adran Fasnach y Rhaniad Safonau Masnach ar 01978 292045

DYDDIADAU I'CH DYDDIADUR

Cyrsiau Hyfforddi Hylendid Bwyd 2008—2009

CYNGOR

Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd
Adran Diogelwch Bwyd a Safonau
Masnach (Safonau Bwyd)
Stryd Fawr
Rhiwabon
Wrecsam LL14 6NH

Ffôn: 01978 292040 (Diogelwch Bwyd)
Ffôn: 01978 292040(Safonau Bwyd)
Ffacs: 01978 813709

Ewch i'n gwefan yn
www.wrecsam.gov.uk

Gwobr lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd mewn Arlwyo (Sylfaenol) (£41.00)

Tachwedd 2008 Dydd Llun 10 a 17 (6-9pm)

Ionawr 2009 Dydd Llun 12 a 19 (6-9pm)

Mawrth 2009 Dydd Llun 9 a 16 (6-9pm)

Gwobr lefel 3 mewn Goruchwylio Diogelwch Bwyd mewn Arlwyo (£107.00)

Dydd Mercher 4 Chwefror 2009—Dydd Mercher 29 Ebrill 2009 (6—8pm)

Gwobr lefel 4 mewn Rheoli Diogelwch Bwyd mewn Arlwyo (£295.00)

Yn anffodus, nid ydym yn cynnal y cwrs hwn tan fis Medi 2009. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd y dyddiadau ar gael.

Enillwyr y Wobr Hylendid Bwyd

Llongyfarchiadau i'r lleoliadau canlynol sydd wedi ennill Gwobrau Hylendid Bwyd rhwng Ebrill 2008 ac Awst 2008.

Y Wobr Aur

Ysgol Bronington, Bronington; Ysgol Gatholig Sant Joseff, Wrecsam; Cartref Preswyl New Hall, Rhiwabon; Granny B's, Marchnad y Bobl, Wrecsam; Tomlison's Dairy, Y Mwynglawdd, Wrecsam; Ysgol Rhiwabon, Rhiwabon, Wrecsam; Sainsbury's, Plas Coch, Wrecsam; Roil Foods, Ystad Ddiwydiannol, Wrecsam, Kellogs, Lôn y Bryn, Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, Wrecsam.

Y Wobr Arian

Ysgol Hooson, Rhos; Coleg Iâl, Ffordd y Bers, Wrecsam; M.E.Evans, Marchnad y Cigyddion, Wrecsam; Ffreutur Staff F Bender, Parc Diwydiannol Gresffordd, Gresffordd; Cartref Nyrsio Fairhome, Ffordd y Tylwyth Teg, Wrecsam; Ysgol Uwchradd Darland, Yr Orsedd; Lewis' Farm Shop, Eyton; Lloyds No1, Stryt Fawr, Wrecsam; Yales café Bar, Stryt yr Allt, Wrecsam; Ysgol Gynradd Ceiriog, Y Waun; Cartref Nyrsio Nant y Gaer, Llai; Ysgol Cynddelw, Glynceiriog; Hostel Prawf a Mechniaeth Plas y Wern, Rhiwabon; Ysgol Eglwys y Santes Fair, Rhiwabon; First Milk Cheese Company (Pecynau caws), Cross Lanes, Wrecsam, J H Austin, Ystad Ddiwydiannol Llai; Ysbyty Llannerch Bana Llannerch Bana; Ysgol Gynradd Madras, Llannerch Bana; Wetherspoon Plc, Stryt y Rhaglaw, Wrecsam; Ysgol St.Dunawd, Bangor Isycoed; Ysgol Bryn Tabor, Coedpoeth; The Community Café, Stryt y Ffynnon, Cefn Mawr, Ysgol Plant Iau Rhiwabon.

Y Wobr Efydd

Cartref Preswyl Ashgrove, Gresffordd; Cartref PreswylAshleigh Court Gresffordd; Ysgol Eyton Wrecsam; Ysgol i Blant Iau Gwersyllt, Gwersyllt, Wrecsam; Ysgol Gynradd Froncysyllte, Fron; Little Café, Marchnad Gyffredinol Wrecsam, Fish & Chip Shop, Stryt Fawr, Rhosymedre; Griffiths Butchers, Stryt Fawr, Rhosymedre; Val's Chippy, Penycae; Ysgol Y Wern, Rhos; Ysgol Gynradd Hanmer; Popty a bwyty staff Asda, Ffordd yr Holt, Wrecsam ;Knolton Farmhouse Cheese, Owrtyn; Co-Op Late Shop, Stryt yr Arglwydd Wrecsam; Cherubs Day Nursery, Rhosrobin, Wrecsam; The Towers Nursery, Acrefair, Wrecsam; Toy Box Day Nursery, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam; Ryecroft Residential home, Ffordd Percy, Wrecsam; Pant Yr Ochain, Gresffordd; Ysgol Gynradd Garth, Garth; Cartref Gofal Conifers, Johnstown; Cartref Gofal Pendine Park, Brynhyfryd; The Brambles Nursery, Gwersyllt, Wrecsam; Meithrinfa ddydd Playland, Wrecsam, Ysgol Y Grango, Rhos; Butchers Shop, Cefn Mawr; Spuds Galore, Merffordd, Meithrinfa Blant Saplings, Wrecsam; Wynnstay Arm Hotel, Stryt Efrog, Wrecsam; Ysgol Plant Iau, Rhiwabon; The Sizzling Pig Company, Malpas; Stevie's Fast Food, Rhos, Canolfan Ddydd Deva Hse, Ffordd Deva, Wrecsam.